*CYNGOR TREF PORTHMADOG*

Ebrill 4 2023

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chi i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref am **19.00**, Nos Fawrth, Ebrill 11, 2023 yn Ystafell Glaslyn, Y Ganolfan, Porthmadog a thrwy gyfrwng Microsoft Teams. I dderbyn gwahoddiad ar gyfer mynediad, cysylltwch â'r Clerc ar clerccyngtreport@gmail.com

**Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ebrill 11 2023**

**RHAGLEN**

1. **Ymddiheuriadau.**
2. **Adroddiad y Cadeirydd.**
3. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Rheolaidd Pwyllgor Llawn Mawrth 14 2023**
4. **Cyfle i'r Cynghorwyr ddatgan diddordeb.**

**5. MATERION I'W DWYN GERBRON :-**

- **Llenwi Tabl Cydnabyddiaeth Ariannol 2023-2024 (** copi ynghlwm)
- **Cymeradwyo Adroddiad Cynllun Bioamrywiaeth 2022** ( gweler 345.3.23 a gohebiaeth 14)
- **Penderfynu ar aelodau ar gyfer Is-Bwyllgor Nadolig**
- **Cyng Gwilym Jones** – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod y goleuadau coch llachar ar y siop barbwr newydd ac os cafwyd caniatâd cynllunio 'newid defnydd' ar y safle.(gweler lluniau gohebiaeth 13)
- **Cyng Michael Roberts** – cynnig holi'r Adran Cynllunio os rhoddwyd caniatâd i osod arwyddion uniaith Saesneg o flaen Beach Rock Café, Morfa Bychan.
- **Cyng Michael Roberts** – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ddod i gasglu'r 'cones' y mae pobl yn eu gosod o flaen eu tai i atal eraill rhag parcio yno.
- **Cyng Llywelyn Rhys** – cynnig gweithredu i wella cyflwr mainc goffa Glenda Burke.(gweler lluniau gohebiaeth 5)
- **Cyng Alwyn Gruffydd** – cynnig cysylltu ag Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i atal pobl rhag parcio ar draws y palmant wrth y fynedfa i lwybr Cob Crwn o ochr Melin yr Wyddfa gan na ellir cael mynediad yno gyda chadair olwyn.(gweler lluniau gohebiaeth 6)
- **Cyng Michael Roberts** – cynnig cysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am fwy o finiau rhwng Borth y Gest a Phorthmadog – yn enwedig ardal y Garth.

**6. Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf**. *Dyddiad cau Rhaglen Mai 9 2023 = Ebrill 29 2023 , ( Rheolau Sefydlog 8.1 " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)*

**7. Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (**copi ynghlwm)**.**

**8. GOHEBIAETH :**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | PETER SIMPSON C.G. | Timau tacluso Ardal Ni |
| **2** | DEWI WYN OWEN C.G. | Ymateb i 299.2.23 arwydd llwybr Cae Llety |
| **3** | JASON HUMPHREYS | Gwasanaethau meddygol Porthmadog |
| **4** | EMMA TAMPLIN | Ymateb i 344.3.23 Plac Porffor |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | LLUNIAU MAINC GOFFA GLENDA BURKE | |
| **6** | LLUNIAU LLWYBR COB CRWN | |
| **7** | MEINIR GRIFFITHS | Ymateb i 344.3.23 |
| **8** | DAVID CHARLES WILLIAMS C.G. | Ymateb i 204.11.22 – glanhau mainc Ann Bullen |
| **9** | CATRIN ROBERTS CFFI | Ymateb i 354.3.23 – croesawu'r Eisteddfod |
| **10** | STEFFAN JONES | Ymateb i 230.12.22 – codi dail |
| **11** | STEFFAN JONES | Ymateb i 335.3.23 van Mr Shift It |
| **12** | STEFFAN JONES | Ymateb i 339.3.23 – cais am fainc bicnic i'r Nyrseri |
| **13** | LLUNIAU'R BARBWR NEWYDD | |
| **14** | ADRODDIAD BIOAMRYWIAETH 2022 | Gweler 345.3.23 |
| **15** | IWAN EVANS C.G. | Ymateb i 204.12.21 perchnogaeth y Cob a Cob Crwn |
| **16** | IWAN AP TREFOR | Cyflymder 20 |
| **17** | LLYWODRAETH CYMRU | Papur Gwyn Diwygio Etholiadol |

**9. MATERION ARIANNOL :**

**Derbyniadau :**

| | | |
|---|---|---|
| CYNGOR GWYNEDD | Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 2 | £ 226.80 |
| CYNGOR GWYNEDD | Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 3 | £ 493.08 |
| H.S.B.C. | Llog Banc Chwefror / Mawrth 2023 | £ 30.46 |
| CYNGOR GWYNEDD | Ad-dalliad torri gwair 2022-23 | £ 1,064.50 |

**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Marian Roberts | LLinell Ffôn a Wê Mawrth 2023 | £ 51.36 |
| 2 | Marian Roberts | Cyflog Clerc Mawrth 2023 | £ 922.97 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Mawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc Mawrth 2023 | £ 230.74 |
| 4 | Cymdeithas Rhandiroedd Cae Pawb | Trosglwyddo Grant Cronfa Rhandiroedd i Gae Pawb – taliad 2 a 3 | £ 719.88 |
| 5 | Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd | Cyfraniad olaf ( gweler cofnodion 314.3.22) | £ 5,000.00 |
| 6 | Marian Roberts | Ad-daliad am inc du | £ 19.59 |
| 7 | SLCC | Tâl aelodaeth 2023-2024 | £ 177.00 |
| 8 | Archwilio Cymru | Ffioedd archwilio 2020-21 | £ 235.00 |
| 9 | Y Ganolfan | Cyfarfod mis Mawrth | £ 50.00 |
| 10 | Cymru 1 Ltd | Gwasanaeth gwefan 2023-2024 | £ 523.20 |

( Mae copi o bob siec ar gael i'w harchwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

**10. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**(a) Rhif Cais .: C23/0270/44/DT ( wedi ebostio 31.3.23)**
Lleoliad : Neuadd Wen Lôn Gwydryn, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9YA
Bwriad : Estyniad

Marian Roberts
( Clerc)

*Marian Roberts (Clerc/Clerk),29 Maes Gerddi, Porthmadog,Gwynedd,LL49 9LE*
*Ffôn / Tel : 01766 513709*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*